**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd

Llywydd@senedd.cymru

16 Ebrill 2024

Annwyl Llywydd

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Tybaco a Fêps (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth 2024.

Caiff y Bil ei gefnogi gan bedair Llywodraeth y DU ac mae'n ymdrin â materion iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â rheoli tybaco a dyfeisiau fepio. Disgwylir y bydd y Bil i raddau helaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad i ddatblygiad cyflym y Bil, a chymhlethdod ac ehangder y darpariaethau, nid yw wedi bod yn bosibl i'm swyddogion gwblhau'r dadansoddiad manwl sydd ei angen o fewn y terfyn pythefnos arferol a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y Senedd yn gallu ystyried y ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd bwysig hon yn llawn ac rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ddechrau mis Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.